



Gofal o dan yr Enfys

Llinell Amser Cyfraith a Hanes LHDT+

Hen Agweddau

Mae agweddau tuag at ryw a rhywedd wedi newid ac amrywio ar hyd hanes. Mae rhai crefyddau wedi ystyried rhyw fel rhywbeth ar gyfer atgenhedlu'n unig. Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg dyfeisiwyd y cysyniadau heterorywiol a chyfunrywiol.

19eg Ganrif - Troseddoli Cyfunrhywiaeth Dynion

James Pratt a John Smith oedd y ddau ddyn diwethaf i gael eu dienyddio am weithredoedd cyfunrywiol, a hynny ar 27 Tachwedd 1835. Ym 1861, diddymodd y Ddeddf Troseddau yn Erbyn y Person y gosb eithaf am weithredoedd cyfunrywiol. Ym 1885, daeth 'Anwedduster Dybryd' yn drosedd o dan y Ddeddf Diwygio Cyfraith Trosedd, a ddiffiniwyd fel 'unrhyw weithred rywiol rhwng dynion'. Ym 1895, dedfrydwyd Oscar Wilde, y bardd a'r dramodydd enwog, i ddwy flynedd o lafur caled am anwedduster dybryd.

1921 - Troseddoli Lesbiaeth

Ym 1921, roedd yn fwriad i anwedduster dybryd gynnwys gweithredoedd rhywiol rhwng menywod. Gwrthododd y Senedd hyn ar y sail nad oedd y rhan fwyaf o fenywod yn ymwybodol o lesbiaeth, ac y gallai'r Ddeddf annog menywod i fynd ati i archwilio eu rhywioldeb.

1957 - Adroddiad Wolfenden

Ym 1957, cyhoeddwyd Adroddiad Wolfenden ar ôl cyfres o ddedfrydau proffil uchel am anwedduster dybryd. Galwodd yr adroddiad am ddad-droseddoli cyfunrhywiaeth dynion yn rhannol.

<https://www.parliament.uk/about/living-heritage/transformingsociety/private-lives/relationships/collections1/sexual-offences-act-1967/wolfenden-report/>

1967 - Dad-droseddoli Cyfunrhywiaeth Dynion

Dad-droseddolwyd cyfunrhywiaeth dynion yng Nghymru a Lloegr ym 1967 o dan y Ddeddf Troseddau Rhywiol. Arweiniodd y Ddeddf hon at ddad-droseddoli rhyw rhwng dynion yn rhannol. Ar ôl hyn, dad-droseddolwyd cyfunrhywiaeth yn yr Alban ym 1980 ac yng Ngogledd Iwerddon ym 1982. Ni newidiodd yr oedran cydsynio o 21 yng Nghymru a Lloegr tan 1994. Bryd hynny fe'i newidiwyd i 18 tan 2000, ac yna fe'i gwnaed yn gyfartal â phobl heterorywiol a lesbiaid, sef 16 oed.

http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1967/60/pdfs/ukpga_19670060_en.pdf

1988 - Adran 28 y Ddeddf Llywodraeth Leol

Roedd Adran 28 Ddeddf Llywodraeth Leol 1988 ar y llyfr statud yng Nghymru a Lloegr rhwng 1989 a 2003. Defnyddiwyd y Ddeddf i atal hyrwyddo cyfunrhywiaeth yn fwriadol, fel "perthynas deuluol ffug", ac i atal trafod cyfunrhywiaeth mewn ysgolion. Diddymwyd y Ddeddf yng Nghymru a Lloegr yn 2003. Fe'i diddymwyd yn yr Alban yn 2000. Ni roddwyd Adran 28 ar y llyfr statud erioed yng Ngogledd Iwerddon.

<https://lgbthistorymonth.org.uk/wp-content/uploads/2014/05/1384014531S28Background.pdf>

1992 - Dad-ddosbarthu Cyfunrhywiaeth fel Salwch Meddwl

Dad-ddosbarthodd Sefydliad Iechyd y Byd gyfunrhywiaeth fel salwch meddwl ym 1992.

<https://www.psychologytoday.com/gb/blog/hide-and-seek/201509/when-homosexuality-stopped-being-mental-disorder>

2000 - Diddymu'r Gwaharddiad Milwrol

Yn y flwyddyn 2000, diddymwyd y gwaharddiad rhag caniatáu i bersonél milwrol Hoyw a Lesbiaidd wasanaethu yn y fyddin. Roedd y gwaharddiad wedi arwain at garcharu llawer o bobl mewn carchardai milwrol hyd at 2000.

https://en.wikipedia.org/wiki/Sexual_orientation_and_the_military_of_the_United_Kingdom

2002 - Deddf Mabwysiadu a Phlant

Mae Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 yn caniatáu i bobl sengl Hoyw a Lesbiaidd, ynghyd â chyplau o'r un rhyw, fabwysiadu plentyn ym Mhrydain. Cyn hyn, ni allai cyplau o'r un rhyw na chyplau heterorywiol a oedd heb briodi fabwysiadu na maethu plant.

<https://www.stonewallcymru.org.uk/cy/cymorth-chyngor/hawliau-bod-yn-rhieni/mabwysiadu-maethu-yng-nghymru-lloegr>

2003 - Rheoliadau Cyfeiriadedd Rhywiol

Roedd Rheoliadau Cyfeiriadedd Rhywiol 2003 yn gwahardd cyflogwyr rhag gwahaniaethu yn erbyn cyflogeion ar sail eu cyfeiriadedd rhywiol. Mae'r Rheoliadau wedi'u disodli erbyn hyn gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Roedd y gyfraith achosion mewn perthynas â chyfeiriadedd rhywiol yn cynnwys Bull v. Hall - achos perchnogion gwesty a wrthododd roi ystafell ddwbl i gwpl o'r un rhyw a oedd mewn Partneriaeth Sifil.

<https://www.scesolicitors.co.uk/news/sexual-orientation-discrimination-case-law-examples>

2003 - Deddf Cyfiawnder Troseddol

Mae annog casineb ar sail cyfeiriadedd rhywiol yn drosedd o dan gyfraith y Deyrnas Unedig ers ehangu Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 i gynnwys cyfeiriadedd rhywiol, ynghyd â chategorïau eraill fel casineb hiliol a chrefyddol. Gall Barnwyr ddefnyddio'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol i gyflwyno dedfryd fwy difrifol i rai sy'n cyflawni trosedd casineb.

<https://www.cps.gov.uk/legal-guidance/sexual-orientation-cps-guidance-stirring-hatred-grounds-sexual-orientation>

2004 - Deddf Cydnabod Rhywedd

Mae Deddf Cydnabod Rhywedd 2004 yn galluogi pobl â dysfforia rhywedd i newid eu rhywedd yn gyfreithiol. Gall pobl drawsryweddol newid eu rhywedd cyfreithiol o dan Ddeddf Cydnabod Rhywedd 2004 drwy wneud cais am Dystysgrif Cydnabod Rhywedd a chael dystysgrif geni newydd.

https://en.wikipedia.org/wiki/Gender_Recognition_Act_2004

2004 - Deddf Partneriaethau Sifil

Estynnodd y Ddeddf Partneriaethau Sifil yr un hawliau sydd gan gyplau priodol i gyplau o'r un rhyw yn 2005.

<http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/33/contents>

2010 - Deddf Cydraddoldeb

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diogelu ystod o Nodweddion Gwarchoddedig rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth, gan gynnwys: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

<https://www.equalityhumanrights.com/en/equality-act/protected-characteristics>

2013 - Deddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw)

Yn 2013, ehangodd Deddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) briodasau i gyplau o'r un rhyw.

<http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2013/30/contents/enacted>

2017 - Deddf Alan Turing

Yn 2017, esgusododd y Ddeddf Plismona a Throsedd bob dedfryd troseddol hanesyddol o anwedduer dybryd yn erbyn dynion. Mae'n cael ei hadnabod fel 'Deddf Alan Turing'. Mae'r Ddeddf yn berthnasol i ddedfrydau yng Nghymru a Lloegr.

https://en.wikipedia.org/wiki/Alan_Turing_law

2018 - Dad-ddosbarthu Trawsrywedd fel Salwch Meddwl

Dad-ddosbarthodd Sefydliad Iechyd y Byd drawsrywedd fel salwch meddwl ym 1992.

<https://edition.cnn.com/2018/06/20/health/transgender-people-no-longer-considered-mentally-ill-trnd/index.html>

Rhyngwladol

Amcangyfrifir ar hyn o bryd bod cyfunrhywiaeth yn anghyfreithlon mewn 72 gwlad, a chosbir cyfunrhywiaeth gyda'r gosb eithaf mewn pum gwlad. Mae'r rhain yn cynnwys: Iran, Swdan, Saudi Arabia a Yemen, lle cosbir cyfunrhywiaeth â marwolaeth, o dan gyfraith sharia. Mae hynny'n wir yn rhannau o Somalia a Gogledd Nigeria hefyd. Mewn dwy wlad arall - Syria ac Irac - mae gweithredwyr anwladwriaethol yn gosod y gosb eithaf, gan gynnwys y Wladwriaeth Islamaidd.

https://ilga.org/downloads/2017/ILGA_WorldMap_ENGLISH_Overview_2017.pdf

Darllen Pellach

I weld llinell amser gynhwysfawr, a throsolwg o'r diwygiadau i gyfraith LHDT+, ewch i wefan y Llyfrgell Brydeinig <https://www.bl.uk/lgbtq-histories/lgbtq-timeline>

Cynhyrchwyd yr adnodd hwn ar y cyd rhwng Ysgol Astudiaethau Polisi Prifysgol Bryste a'r Ymddiriedolaeth Amrywiaeth, mis Mawrth 2019.

I gael rhagor o wybodaeth ac adnoddau, ewch i www.diversitytrust.org.uk/careunderrainbow.